

Aled Roberts  
Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd  
CF10 1AT

8 Gorffennaf 2021

Annwyl Gomisiynydd

## Y BWRDD PARÔL - ADRODDIAD MONITRO AR Y CYNLLUN IAITH GYMRAEG 2020/21

Rydw i'n falch o ddarparu adroddiad monitro blynyddol y Bwrdd Parôl ar y cynnydd a gafodd ei wneud yn erbyn y cynllun gweithredu i gyflawni'r ymrwymïadau sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Er bod y cyfyngiadau a roddwyd ar waith yn ystod y pandemig wedi effeithio ar waith y Bwrdd, rydw i'n falch o roi gwybod ein bod ni wedi cyhoeddi dros 27,000 o benderfyniadau parôl ers mis Mawrth 2020 pan ddechreuodd y cyfnod clo, sy'n gynydd ar y blynyddoedd blaenorol. Bu gwahanol fathau o gyfyngiadau yng Nghymru a Lloegr dros y flwyddyn ddiwethaf, ond mae'r data'n dangos nad oedd carcharorion o Gymru dan anfantais o gymharu â charcharorion eraill dros y cyfnod hwn o ran cynnydd yn eu hadolygiadau parôl. Fe wnaethom gymharu nifer y gwrandawiadau llafar a gynhaliwyd yn y chwe charchar yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf sy'n dangos cynnydd mewn achosion.

2018/19	2019/20	2020/21
376	405	621

Fel y nodwyd y llynedd, llwyddodd y Bwrdd i gwblhau 17 o'r 19 cam gweithredu a osodwyd ganddo yn y cynllun gweithredu ar gyfer 2018-2020. Y ddau gam gweithredu a oedd heb eu cyflawni oedd:

18. *Darparu adroddiad monitro a gwerthuso cyflawn ar berfformiad yn erbyn y Cynllun i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Mai bob blwyddyn*

19. *Adolygu'r Cynllun yn ystod haf 2020, yn unol â'r strategaeth sefydliadol*

Mae'r gwaith o gydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei oruchwylio gan ein Grŵp Cynghori mewnol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth (EDAG). Fe wnaeth EDAG gyfarfod ym mis Mawrth 2021 a chytuno i fabwysiadu'r Cynllun Iaith Gymraeg presennol am ddwy flynedd arall. Rydyn ni bellach wedi diweddarau'r Cynllun i adlewyrchu'r amserlen newydd.

Ar ôl i'n Tasglu Rhanbarthol i Gymru (Tasglu) gwblhau ei waith ddiwedd y llynedd, darparwyd Adroddiad Cau i EDAG a oedd yn nodi rhai o'r manteision a'r elfennau i'w cyflawni:

- Fe wnaethon ni ganfod y galw gan garcharorion am wasanaethau parôl yn Gymraeg, gan ddarparu sylfaen dystiolaeth i ddatblygu'r gwasanaethau hyn;
- Cafodd pedwar opsiwn penodol eu datblygu ar gyfer cefnogi carcharorion Cymraeg eu hiaith mewn gwrandawiadau parôl llafar:
  - Achos llawn yn Gymraeg – pawb sy'n bresennol yn siarad Cymraeg
  - Cyfieithu ar y pryd ar gyfer yr achosion yn llawn
  - Cyfle i'r carcharor roi tystiolaeth yn Gymraeg ar adegau penodol yn yr achos
  - Cymorth ad hoc os yw carcharor yn ei chael yn anodd cyfleu'r hyn y mae'n ceisio'i ddweud yn Saesneg;
- Fe wnaethon ni baratoi taflen wybodaeth ar gyfer carcharorion sy'n siarad Cymraeg yn nodi'r opsiynau uchod: [Taflen wybodaeth](#);
- Fe wnaethon ni baratoi canllawiau cynhwysfawr i'r aelodau ar garcharorion sy'n siarad Cymraeg a'r iaith Gymraeg; mae'r rhain ar gael ar y tudalennau gwe yma: [Canllawiau ar gyfer Aelodau'r Bwrdd Parôl](#);
- Diweddarwyd y modiwl hyfforddiant cynefino staff a'r llawlyfr gweithredol i gynnwys adran ar ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg;
- Darparwyd hyfforddiant wedi'i deilwra i staff sy'n rheoli achosion mewn carchardai yng Nghymru;
- Mae dioddefwyr nawr yn gallu gofyn am lythyr penderfyniad cryno yn Gymraeg. Cafodd hyn hefyd ei gynnwys fel hawl o dan Hawl 11 y [Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Dioddefwyr Trosedd](#) a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2020 (ynghyd â'r opsiwn i gyflwyno Datganiad Personol Dioddefwr yn Gymraeg);
- Roedd ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer staff ac aelodau wedi elwa o well ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a gwell cyfeiriadau ati;
- Sicrhawyd contract y Weinyddiaeth Gyfiawnder gyda'r darparwr gwasanaethau cyfieithu The Big Word, a chafodd y staff allweddol eu hyfforddi i wneud cais am gyfieithiadau;
- Cafodd yr holl gynnwys presennol ar dudalennau gwe'r Bwrdd ei adolygu a'i gyfieithu i'r Gymraeg, lle roedd hynny'n briodol;
- Cafodd dau lyfryn gwybodaeth pwysig a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020 eu cyfieithu i'r Gymraeg;

Cafwyd dau argymhelliad arall gan y *Tasglu* ac rydyn ni'n bwriadu bwrw ymlaen â nhw yn y dyfodol agos.

- Mae'r *Tasglu*'n argymhell bod y Bwrdd yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Carchardai a Phrawf i edrych ar sut y gallwn ni gefnogi carcharorion o


Gymru sy'n cael eu cadw mewn sefydliadau yn Lloegr, fel darn dilynol o waith.

- Roedd y *Tasglu* yn bryderus ynghylch y diffyg ymwybyddiaeth o anghenion carcharorion Cymraeg eu hiaith gan gynrychiolwyr cyfreithiol. Maen nhw'n argymhell bod hyn yn cael ei ddwyn i sylw Cymdeithas Twrneiod Carchardai drwy Grŵp Defnyddwyr y Bwrdd Parôl.

Bydd EDAG yn datblygu cynllun gweithredu newydd ar gyfer y ddwy flynedd nesaf a fydd yn adeiladu ar yr uchod ac yn gosod amcanion newydd. Byddaf yn rhannu hwn â chi maes o law.

Cofiwch gysylltu â mi os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch neu os bydd gennych gwestiynau am yr adroddiad monitro.

Yn gywir



Martin Jones

**Prif Weithredwr**

**Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr**

Aled Roberts  
Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Marys Street  
Cardiff  
CF10 1AT

8 July 2021

Dear Commissioner

**PAROLE BOARD – MONITORING REPORT ON WELSH LANGUAGE SCHEME  
2020/21**

I am pleased to provide you with the Parole Board's annual monitoring report on progress against the action plan to deliver on the commitments set out in our Welsh Language Scheme.

Whilst the restrictions put in place during the pandemic had an impact on the work of the Board, I am pleased to advise that we have issued over 27,000 parole decisions since March 2020 when the lockdown began, which is an increase on previous years. Wales and England experienced different scales of restrictions over the last year, but the data indicates that Welsh prisoners were not disadvantaged over other prisoners during this period in terms of progress with their parole reviews. We undertook a comparison of the number of oral hearings held in the six Welsh prisons across the last three reporting years which in fact indicate a rise in cases.

2018/19	2019/20	2020/21
376	405	621

As reported last year, the Board successfully completed 17 of the 19 actions it set itself within the action plan for the period 2018-2020. The two outstanding actions were to:

*18. Provide the Welsh Language Commissioner in May each year a completed monitoring and evaluation report on performance against the Scheme*

*19. Review the Scheme in summer 2020, in line with the organisational strategy*

Compliance with the Welsh Language Scheme is overseen by our internal Equality and Diversity Advisory Group (EDAG). EDAG met in March 2021 and agreed to adopt the existing Welsh Language Scheme for a further two years. We have now updated the Scheme to reflect the new timeframe it covers.

Following the conclusion of our Welsh Regional Taskforce (*Tasglu*) at the end of last year, a Closure report was provided to EDAG which set out some of the benefits and deliverables:

- The demand from prisoners for parole services in Welsh was ascertained, providing an evidence-base to develop these services;
- Four specific options were developed for supporting Welsh speaking prisoners at parole oral hearings:
  - Full proceedings in Welsh – all attendees speaking Welsh
  - Full proceedings translated/interpreted in real time
  - Opportunity for the prisoner to give evidence in Welsh at certain points in the proceedings
  - Ad hoc support if a prisoner struggles to articulate what they are trying to say in English;
- An information leaflet was produced for Welsh speaking prisoners setting out the above options: [Information leaflet](#);
- Comprehensive guidance for members on Welsh speaking prisoners and the Welsh language was produced; this is available on our web pages here: [Parole Board Member Guidance](#);
- The staff induction training module and operational handbook were updated to include a section on duties in relation to the Welsh language;
- Tailored training was delivered for staff managing cases in Welsh prisons;
- Victims can now request a summary decision letter in Welsh. This was also included as an entitlement under Right 11 of the revised [Code of Practice for Victims of Crime](#) published in November 2020 (along with the option to submit a Victim Personal Statement in Welsh);
- Recruitment campaigns for staff and members benefited from improved awareness of, and references to, the Welsh language;
- Onboarding to the MoJ Contract with The Big Word translation services provider was secured, and key staff trained on requesting translations;
- All existing content on the Board's web pages was reviewed and translated into Welsh, where appropriate;
- Two major information booklets published in August 2020 were translated into Welsh;


There were two additional recommendations from the *Tasglu* which we are looking to progress in the near future.

- The *Tasglu* recommends that the Board work with HMPPS to look at how to support Welsh prisoners held in English establishments, as a follow-on piece of work.
- The *Tasglu* were concerned by the apparent lack of awareness of the needs of Welsh speaking prisoners by legal representatives. It is recommended that this be brought to the attention of the Association of Prison Lawyers via the Parole Board User Group.

EDAG will develop a new action plan for the next two years which will build on the above and set new objectives. I will share this with you in due course.

Please do not hesitate to contact me should you require any further information or have questions about the monitoring report.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "Martin Jones". The signature is written in a cursive style with a clear, legible font.

Martin Jones  
**Chief Executive Officer**  
**The Parole Board for England and Wales**